

Amseroedd Ymateb Targed

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amseroedd targed ar gyfer rhoi sylw i waith cynnal yr adroddir bod angen ei wneud. Mewn 'argyfwng', gall yr ymateb di-oed olygu gwaith atgyweirio dros dro, ac atgyweirio'r diffyg yn barhaol cyn gynted â phosibl.

	Gwaith atgyweirio mewn argyfwng	Gwaith atgyweirio brys	Gwaith atgyweirio parhaol	Gwaith atgyweirio cyffredinol
Ffabrig Adeiladau	4 awr	24 awr	5 niwrnod	4 wythnos
Draeniau	24 awr	48 awr	5 niwrnod	4 wythnos
Gosodion a ffitiadau	4-6 awr	24 awr	5 niwrnod	4 wythnos
Lloriau a gorchuddion lloriau	2-6 awr	48 awr	7 niwrnod	1 wythnos
Gorffeniadau addurnol	Amherthnasol	Amherthnasol	7 niwrnod	4 wythnos
Gosodiadau systemau gwres a dŵr, a gosodiadau glanweithiol	4 awr	24 awr	7 niwrnod	1 wythnos
Gosodiadau Trydanol	4 awr	24 awr	5 niwrnod	4 wythnos
Larymau tân a mwg	4 awr	24 awr	5 niwrnod	4 wythnos
Diffoddyddion tân	Eu hamnewid o fewn 24 awr			
Offer hanfodol (e.e. methiant llwyr cloeau, cwcer, oergell, gwely)	Amherthnasol	48 awr	Amherthnasol	1 wythnos
Cyfarpar arall	Eu hamnewid o fewn 7 niwrnod			
Ffyrdd, llwybrau, ayyb	6 awr	1 diwrnod	5 niwrnod	4 wythnos
Gweithiau allanol	4 awr	6 awr	7 niwrnod	4 wythnos
Lifftiau teithwyr	2 awr	24 awr	Amherthnasol	28 niwrnod

Gwaith atgyweirio mewn argyfwng – gwaith atgyweirio sy'n gofyn am atgyweiriad dros dro ar unwaith er mwyn atal risgiau difrifol i iechyd a diogelwch a difrod mawr, o ganlyniad, i'r adeiladau.

Gwaith atgyweirio brys – gwaith atgyweirio i ddileu risgiau i iechyd a diogelwch a diogelu/atal rhag difrod ar raddfa fach, o ganlyniad, i'r adeiladau.

Gwaith atgyweirio cyffredinol – atgyweiriadau nad ydynt yn argyfwng nac yn gofyn am waith brys.